| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **28 TACHWEDD 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - BELLA TAKEAWAY, FFORDD CAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo Bella Takeaway, 8 Ffordd Caergybi, Bangor Uchaf, LL57 2EG oddi wrth deilydd y drwydded , Mr Talal El – Arab, 20 Rhosfryn, Bangor LL57 2DL. Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Lleolir yr eiddo ym Mangor Uchaf, ac fe ddarparir lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo.

Argymhellir oriau gweithgaredd trwyddedig ac agor fel a ganlyn –

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul/Mercher** | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 02:30 |
| **Iau** | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 03:00 |
| **Gwen/Sad** | 23:00 - 02:30 | 23:00 – 03:30 |

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebiad |
| Aelodau unigol a Cyngor Dinas Bangor | 4 e-bost - gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | 2 e Bost - amodau , dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Aelodau Lleol

Derbyniwyd e bost yn gwrthwynebu gan ddau o aelodau lleol , ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

### Cyngor Dinas Bangor

Derbyniwyd 3 e bost gan gynghorwyr unigol ac un e bost gan Glerc y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus

### Preswylydd cyfagos

Mae'r preswylydd yn byw yn agos iawn i'r eiddo ac yn pryderu fod yr ymestyniad mewn oriau yn mynd i danseilio'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus; a chyfrannu tuag at yr aflonyddwch sydd ar gynnydd ym Mangor Uchaf.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais am ymestyniad oriau. Safbwynt yr Heddlu yw bod yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed TCC a Goruchwylwyr Drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl; a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau ar nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn yn unig oherwydd hyn.

Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.